Symud Rhifedd

Datblygu sgiliau Rhifedd drwy ddefnyddio Cinesioleg Addysgol (Brain Gym®)

Dysgir gan Sue Peace BSc, MEd, AMBDA, SpLDAPC, KFRP
Cinesiolegydd Addysgol/Ymgynghorydd trwyddedig Brain Gym® /Hyfforddwr/Athrawes Mathemateg a Llythrennedd

27 - 28 Mawrth 2009 Aberteifi

Byddwch yn gallu defnyddio'r wybodaeth a gewch ar y cwrs gyda dosbarthiadau cyfan, unigolion, grwpiau bach o ddisgyblion neu gydag oedolion.

Mae'r rhaglen yn rhoi cymorth i fyfyrwyr ddatblygu eu hunanhyder, fel y byddant yn gallu ymdrin â mathemateg o ddydd i ddydd. Mae'r cwrs yn seiliedig ar bwysigrwydd symud a datblygu sgiliau gwybyddol penodol

Drwy symudiadau strwythuredig, synnwyr tactil a thechnegau gweledol, bydd y cwrs yn edrych ar y canlynol:

- Ofn mathemateg.
- Dyscalculia: Datblygu dealltwriaeth o rif fel nifer.
- Cofio cadwyn rhif a thablau .
- Creu dilyniant.
- Adnabod cyfarwyddiadau megis chwith a de.
- Problemau ffisegol sydd yn herio'r gallu i ddarllen y cloc neu ddeall pa amser o'r dydd ydy hi.
- Ystyr gwerth lle: Deall unedau, degau, cannoedd a.y.y.b. ac felly amgyffred maint a nifer rhif.
- Y cysyniad o hyd, arwynebedd a chyfaint.
- Ffracsiynau a degolion.
- Canfyddiad: gweld yr ateb i'r broblem.
- Haniaeth: problemau gwybyddol a'r gallu i'w hamgyffred a'u datrys

Bydd y cwrs yn edrych ar gamau datblygu sy'n hanfodol i'r broses o ddeall y cysyniadau uchod a chaffael rhifedd yn gyffredinol. Byddwch hefyd yn datblygu symudiadau corfforol priodol a fydd o gymorth wrth wneud hyn. Bydd angen edrych ar broblemau cyfeririol, gweld a deal, integreiddio deu-glywedeol a deu-weledol.

Tiwtor y Cwrs: Sue Peace

Sue Peace BSc,MEd,AMBDA,SpLDAPC, KFRP Cinesiolegydd Ymgynghorydd trwyddedig Brain Gym® /Hyfforddwr/Athrawes Mathemateg a Llythrennedd.

Cinesiolegydd Addysgol/Ymgynghorydd trwyddedig Brain Gym® /Hyfforddwr/Athrawes Mathemateg a Llythrennedd.

Mae Sue yn gweithio yn broffesiynol fel athrawes ac ymgynghorydd Brain Gym® yn helpu myfyrwyr ac oedolion i gyrraedd eu potensial dysgu.

Mae hi'n hyfforddwr Brain Gym trwyddedig. Mae gan Sue cymhwyster SpLDPAC (Tystysgrif Anawsterau Dysgu Penodol ac Asesu Ymarferol gyda PATOSS (Sefydliad Athrawon Addysg Arbennig Broffesiynol).

Hefyd mae gan Sue gymhwyster AMBDA gan Sefydliad Dyslecsia Prydeinig.Mae Sue yn aelod proffesiynol o'r Sefydliad Cinesioleg Prydeinig a'r Sefydliad Cinesioleg Addysgol y Deyrnas Unedig. Dyscalcwlia, dyspracsia a dyslecsia yw ei phrif ddiddordebau.

Maes ymchwil Sue yw dulliau "Symud a Dysgu" trwy system Brain Gym®. Ar hyn o bryd mae hi'n datblygu dulliau i helpu myfyrwyr dyscalcwlig, dyspracsig a dyslecsig. Astudiodd radd uwch yn y maes hwn ym Mhrifysgol Bangor a'i chwblhau yn 2006.

Mae Sue yn athrawes brofiadol sydd wedi dysgu mathemateg yn Awstralia ac yng Nghymru ym mhob cyfnod allweddol yn cynnwys TGAU a Lefel A.

Mae hi'n rhoi hyfforddiant mewn Cinesioleg Addysgol(Brain Gym®) i athrawon, cynorthyddion y dosbarth, gweithwyr proffesiynol eraill a rhieni ac yn gweithio fel ymgynghorydd preifat.

Hi yw cynllunydd y rhaglen Symud Rhifedd ar gyfer rhai sydd ag anawsterau penodol Mathemategol.

Cyhoeddwyd erthyglau gan Sue "An Educational Kinesiology Approach to Dyscalculia" ym mwletin PATOSS, Mehefin 2007 a "Brain Gym" Prosiect Dyslecsia Cymru, cylchlythyr Hydref 2008.

Bydd y cwrs drwy gyfrwng y Saesneg

Cost y Cwrs: £250

Cost y cwrs yw £250. Er mwyn sicrhau lle mae'n rhaid gyrru taliad llawn nad yw'n ad-daladwy, gyda'r ffurflen gais. O ganlyniad i gost llogi lleoliad y cwrs, ni allwn ad-dalu ffi'r cwrs os nad ydych yn mynychu. Cynhelir y cwrs rhwng 9.30 y.b. a 3.30 y.p ar y ddau ddiwrnod.

Lleollad y Cwrs:

Gwesty'r Wembley , Traeth Poppit, Llandudoch /ger Aberteifi, Sir Benfro

Cwblhewch y manylion canlynol a dychwelwch i Sue Peace, Cefn Coch Isaf, Cwmystradllyn, Garndolbenmaen, Gwynedd, LL519AZ.

Sieciau yn daladwy i S.Peace. Hoffwn i ddod i'r cwrs Symud Rhifedd

Dyddiad cwrs----------Amgaeaf siec am----------

Enw:----------

Cyfeiriad----------

Ffôn:----------E-bost:---------- Ffôn Symudol----------Sue Peace, Cefn Coch Isaf, Cwmystradllyn, Garndolbenmaen, Gwynedd, LL519AZ

Email: info@numeracyskills.co.uk www.dyscalcwliacymru.co.uk www.braingymcymru.co.uk

ffôn: 0844 800 7668 neu ffôn symudol: 07786068097.

Nod fasnach gofrestredig o'r Sefydliad Cinesioleg Addysgol yw Brain Gym®

Cwrs diwrnod Hyfforddi Mewn Swydd ar gael drwy gais